

Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Dirybudd)

Practis Iechyd Deintyddol
Arberth

Dyddiad arolygu: 11 Tachwedd
2020

Dyddiad cyhoeddi: 11 Chwefror
2021

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym.....	8
	Darparu gofal diogel ac effeithiol	9
4.	Beth nesaf?	14
5.	Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol.....	16
	Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad .	17
	Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol.....	18
	Atodiad C – Cynllun gwella.....	20

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal iechyd o ansawdd da

Ein gwerthoedd

Rydym yn rhoi cleifion wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol
- Gwrthrychol
- Gofalgar
- Cydweithredol
- Awdurdodol

Ein blaenoriaethau

Drwy ein gwaith, ein nod yw:

Rhoi sicrwydd:

Cynnig barn annibynnol ar ansawdd y gofal

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant drwy lunio adroddiadau a rhannu arferion da

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer

1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad dirybudd o Bractis Iechyd Deintyddol Arberth yn 6 Stryd St James, Arberth, SA67 7DB ar 11 Tachwedd 2020.

Cynhaliwyd yr arolygiad hwn mewn ymateb i bryderon y rhoddwyd gwybod i AGIC amdanynt nad oedd y trefniadau a oedd ar waith yn y practis yn helpu i sicrhau bod staff a chleifion yn cael eu diogelu rhag y risg o haint yn ystod pandemig diweddar COVID-19. O ganlyniad i natur y pryderon hyn, roedd AGIC yn teimlo bod angen cynnal arolygiad dirybudd er mwyn ymchwilio i'r honiadau hyn.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un o arolygwyr AGIC ac adolygwr cymheiriaid deintyddol. Ystyriodd AGIC i ba raddau yr oedd y gwasanaeth yn bodloni Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, y Safonau Iechyd a Gofal (2015) a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Ceir rhagor o fanylion am y ffordd rydym yn cynnal arolygiadau deintyddol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Roedd yn amlwg o'n trafodaethau â'r staff eu bod yn ymrwymedig i ddarparu profiad o ansawdd i gleifion.

Gwelsom fod nifer o drefniadau wedi cael eu rhoi ar waith yn y practis er mwyn helpu i ddiogelu staff a chleifion rhag y risg o haint yn ystod pandemig COVID-19.

Fodd bynnag, er mwyn dangos bod y practis yn cydymffurfio â'r canllawiau a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru, mae angen sicrwydd ychwanegol arnom mewn perthynas â chadarnhau adegau glanhau yn dilyn gweithdrefnau sy'n cynhyrchu aerosol.

Hefyd, roedd angen sicrwydd arnom mewn perthynas â gwasanaethau tawelyddu ymwybodol a ddarperir gan y practis, yn unol â'r safonau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.

Nodwyd gennym fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd pob rhan o'r practis yn fodern ac i'w gweld yn lân.
- Roedd yn amlwg bod y staff yn frwd dros ddarparu gofal o ansawdd da i'r cleifion.
- Roedd nifer o drefniadau cadarnhaol wedi cael eu rhoi ar waith er mwyn helpu i ddiogelu staff a chleifion rhag y risg o haint yn ystod pandemig COVID-19.

Ni allem fod yn sicr bod y gwasanaeth yn cydymffurfio â'r rheoliadau canlynol yn Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017:

- Rheoliad 13(5), 13(6) a 13(8) mewn perthynas ag ansawdd triniaeth a darparu gwasanaethau eraill - y rheswm dros hyn yw bod angen

sicrwydd ychwanegol arnom mewn perthynas â chadarnhau adegau glanhau yn dilyn gweithdrefnau sy'n cynhyrchu aerosol.

- Rheoliad 13(1), 13(2), 13(4) a 13(8) mewn perthynas ag ansawdd triniaeth a darparu gwasanaethau eraill - y rheswm dros hyn yw na allem fod yn sicr bod y gwasanaethau tawelyddu ymwybodol a roddir i gleifion yn cael eu cyflawni yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru.¹

O ganlyniad i natur ein pryderon, ymdriniwyd â'r materion hyn gan ddefnyddio ein proses diffyg cydymffurfio a gorfodi. Roedd hyn yn golygu ein bod wedi ysgrifennu at y practis yn union wedi'r arolygiad.

Rydym wedi ymgysylltu â'r practis ers hynny er mwyn symud y materion hyn ymlaen, ac mae AGIC wedi cael digon o sicrwydd o'r camau a gymerwyd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Mae manylion y gwelliannau uniongyrchol a nodwyd gennym a'r camau a gymerwyd wedi'u nodi yn Atodiad A ac Atodiad B.

¹ Service Standards for Conscious Sedation in a dental care setting

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Cefndir y gwasanaeth

Mae Practis Iechyd Deintyddol Arberth yn darparu gwasanaethau i gleifion yn Arberth a'r cyffiniau. Mae'r practis yn rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir gan Herbrandston and Narberth Dental Health Practices.

Mae'r practis yn darparu amrywiaeth o wasanaethau deintyddol cyffredinol preifat, gan gynnwys gwasanaethau tawelyddu ymwybodol.²

² Conscious sedation is a combination of medicines to help you relax (a sedative) and to block pain (an anaesthetic) during a medical or dental procedure.

Darparu gofal diogel ac effeithiol

Ystyriwyd i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Gofal diogel

Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom ystyried sut roedd y practis deintyddol wedi ymateb i'r heriau a gyflwynwyd gan COVID-19 a ph'un a oedd ganddo'r trefniadau angenrheidiol ar waith i ddiogelu cleifion a staff yn unol â'r canllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru drwy gydol y pandemig.

Dywedwyd wrthym fod cleifion yn cael eu cynghori am drefniadau COVID19 drwy e-bost cyn mynd i'r practis. Ar ddiwrnod eu hapwyntiad, gwelsom fod cleifion yn cael eu cynghori i aros yn eu ceir neu mewn ardal aros â digon o bellter o'u cwrpas os oeddent wedi cerdded i'r practis. Rhannwyd yr ardal aros yn ddwy ardal eistedd fel y gellir cadw pellter cymdeithasol yn effeithiol.

Gwnaethom gadarnhau y gofynnwyd i bob claf gwblhau holiadur meddygol wedi'i ddiweddarau, a oedd yn cynnwys cwestiynau sgrinio a chymryd eu tymheredd pan fyddant yn cyrraedd. Gwnaethom hefyd gadarnhau bod y gwiriadau hyn yn cael eu cofnodi'n briodol yn nodiadau'r cleifion.

Gwelsom fod newidiadau wedi'u gwneud i'r amgylchedd er mwyn helpu'r cleifion a'r staff i gynnal arferion hylendid dwylo da a chadw pellter cymdeithasol. Roedd gel dwylo ar gael ym mynedfa'r practis a chawsom wybod bod y cleifion yn cael eu hatgoffa i wisgo gorchudd wyneb. Gosodwyd rhwystr plastig o amgylch desg y dderbynfa a chadarnhaodd rheolwr y practis y caiff hwn ei ddiheintio bob dydd.

Gwelsom y staff yn gwisgo Cyfarpar Diogelu Personol (PPE) priodol bob amser mewn meysydd anghlinigol o'r practis a gwelsom fod cleifion yn cael eu hebrwng i'r deintyddfeydd ac oddi yno i gefnogi mesurau cadw pellter cymdeithasol.

Gwelsom fod gan y practis wasanaeth negeseuon ar waith rhwng deintyddfeydd a'r dderbynfa a oedd yn galluogi nyrs 'rhedeg' i helpu gyda'r gwaith o ddarparu unrhyw ddeunyddiau gofynnol a symud cleifion o amgylch y practis.

Atal a rheoli heintiau

Roedd pob rhan o'r practis yn fodern, roeddent i'w gweld yn lân ac yn glir o beryglon amlwg. Gwelsom fod y deintyddfeydd a'r ystafell ddihalogi wedi'u trefnu'n dda, ac roeddent mewn cyflwr da.

Gwnaethom edrych ar ba drefniadau oedd ar waith ar gyfer defnyddio PPE a gwelsom fod nifer priodol o stoc ar gael i'r staff, gan gynnwys masgiau a gynau. Gwelsom fod rheolwr y practis wedi cyflawni cwrs ardystiedig i fod yn gymwys mewn profi addasrwydd masgiau wyneb ac wedi cynnal profion addasrwydd ar gyfer pob aelod o'r staff.

Roedd gynau aml dro ar gael, a chadarnhaodd rheolwr y practis y caiff y rhain eu newid rhwng apwyntiadau gweithdrefnau sy'n cynhyrchu aerosol a bod y staff yn gyfrifol am fynd â'r rhain gartref i'w golchi. Gwnaethom gynghori'r practis y dylai'r staff gofnodi sawl gwaith mae'r gynau wedi cael eu golchi, yn unol â chanllawiau'r gwneuthurwr, er mwyn sicrhau eu cynaliadwyedd i'w defnyddio'n barhaus.

Dywedwyd wrthym fod staff wedi cael hyfforddiant, a oedd yn cynnwys sut i wisgo a diosg PPE yn ddiogel, a bod protocolau wedi'u dosbarthu i'r staff i'w gweld. Fodd bynnag, byddem yn cynghori y gofynnir i staff lofnodi taflen glawr ar gyfer polisïau a gweithdrefnau o'r fath i gadarnhau eu bod wedi darllen a deall eu cynnwys.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom ystyried sut roedd y practis wedi rhoi gweithdrefn weithredu safonol Llywodraeth Cymru³ ar waith mewn perthynas â chyflawni gweithdrefnau cynhyrchu aerosol yn ddiogel yn ystod cyfnod oren y pandemig.

Gwnaethom ystyried yn benodol pa drefniadau oedd ar waith yn y practis i gydymffurfio â'r weithdrefn gweithredu safonol mewn perthynas ag adegau glanhau, newidiadau aer a phuro aer. Gwelsom fod y practis wedi cymryd camau i gydymffurfio â'r weithdrefn gweithredu safonol mewn perthynas ag

³ Standard Operating Procedure for the Dental Management of Non-COVID-19 Patients in Wales

adegau glanhau a defnyddio'r unedau puro aer, a oedd yn cynnwys gosod unedau puro aer ym mhob deintyddfa, a phob un ohonynt ar waith wrth ochr y ffenestri agored i helpu cylchrediad yr aer ymhellach.

Fodd bynnag, gwelsom fod addasiadau mewnol wedi'u gwneud i'r unedau puro aer, gyda phrofion mewnol wedi'u cynnal er mwyn asesu eu heffeithiolrwydd. Gan fod y dull hwn wedi'i seilio ar ffynhonnell academiaidd, gwnaethom argymhell y dylai'r practis ofyn am gadarnhad gan arbenigwr â chymwysterau priodol⁴ petai'n dymuno dibynnu ar y dull hwn.

Yn ystod yr arolygiad, nid oeddem yn gallu dod o hyd i dystiolaeth o gyfrifiadau'r adegau glanhau ar gyfer pob deintyddfa. Gofynnwyd am y dystiolaeth hon yn syth ar ôl yr arolygiad a chawsom ein sicrhau bod amseroedd addas wedi cael eu rhoi ar waith gan y practis yn seiliedig ar ddefnydd y peiriant puro heb yr addasu.

Gofal effeithiol

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Yn ystod cyfnod cynnar pandemig COVID-19, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gyngor i dimau deintyddol yng Nghymru yn amlinellu'r camau y dylid eu cymryd i ddiogelu staff a chleifion rhag y risg o haint a helpu i leihau lledaeniad COVID-19 mewn cymunedau. Roedd y cyngor hwn yn datgan cyfnod 'Rhybudd Coch Deintyddol COVID-19', ac yn ystod y cyfnod hwn dylai apwyntiadau deintyddol arferol a drefnwyd ddod i ben, ni ddylid cynnal triniaethau AGP, a dylid oedi unrhyw driniaethau deintyddol y gellid eu hoedi.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom edrych ar y system rheoli cleifion i weld pa fathau o driniaethau deintyddol a ddarparwyd yn y practis deintyddol yn ystod cyfnod Rhybudd Coch Deintyddol COVID-19. Er bod y practis wedi cyflawni rhai triniaethau brys cyfyngedig iawn, roeddem yn fodlon ar y cyfiawnhad clinigol a ddarparwyd gan y Prif Ddeintydd i ddangos bod angen darparu'r triniaethau hynny.

⁴ E.g commissioning company or occupational hygienist

Fodd bynnag, cawsom wybod gan y practis bod yr apwyntiadau hyn yn cael eu brysbennu a'u trefnu dros y ffôn ac, o ganlyniad, nad oeddent yn cael eu cofnodi ar y system rheoli cleifion. Byddem yn cynghori'r practis i sicrhau bod yr apwyntiadau hyn yn cael eu cofnodi ar y system apwyntiadau at ddibenion cynnal a chadw hanes apwyntiadau cleifion a Phrofi Orlhain Diogelu yn y dyfodol.

Mae'r practis yn darparu gwasanaethau tawelyddu ymwybodol i gleifion a allai deimlo'n bryderus am gael gofal deintyddol. Gwnaethom ystyried y ffordd roedd y practis yn darparu'r gwasanaeth hwn i gleifion a'r ffordd roedd yn bodloni nifer o'r safonau a nodwyd yn y canllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.⁵

Gwelsom fod y gwasanaeth a gynigir gan y practis yn hirsefydledig ac roedd gwybodaeth addas i gleifion er mwyn helpu i roi gwybod i gleifion am y driniaeth, gan gynnwys camau priodol i gael eu cydsyniad ar sail gwybodaeth.

Fodd bynnag, yn ystod ein harolygiad ac yn syth ar ôl ein harolygiad, gwnaethom adolygu pwy yn y tîm deintyddol sy'n helpu gyda'r gwaith tawelyddu ymwybodol, gan gynnwys pryd y gwnaethant ddechrau yn ei rôl nyrsio tawelyddu ac adolygiad o gofnodlyfr enghreifftiol i bennu hyfforddiant, datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) a phrofiad perthnasol.

Ni allem fod yn sicr am y rhesymau canlynol:

- Nid oeddem yn gallu pennu'r union flwyddyn y dechreuodd pob nyrs ddeintyddol gyflawni nyrsio deintyddol tawelyddu. O ganlyniad, nid oeddem yn gallu penderfynu pa nyrs/nyrsys a oedd yn dod o dan y trefniadau trosiannol a nodwyd yn y ddogfen ganllaw.
- Felly, nid oeddem yn gallu penderfynu pa nyrs/nyrsys a oedd wedi'u heithrio neu yr oedd yn ofynnol iddynt gwblhau tystysgrif hyfforddi ffurfiol wedi'i dilysu.
- Nid oeddem yn gallu cadarnhau bod 12 awr o ddatblygiad proffesiynol parhaus a oedd yn berthnasol i dechnegau tawelyddu ymwybodol a ddefnyddir yn y practis wedi cael ei gyflawni mewn cyfnod o bum mlynedd.

⁵ Dental Services: Service Standards for Conscious Sedation in a dental care setting.

Gwelsom nad oedd hyfforddiant cynnal bywyd brys blynyddol wedi'i ddiweddarau ar gyfer rhai aelodau o'r staff ac, yn y cofnod enghreifftiol a ddarperir yn dilyn yr arolygiad, gwelsom y mai yn 2018 y cynhaliwyd yr hyfforddiant ddiwethaf gan un aelod o'r staff, y cawsom wybod yn ddiweddarach mai o ganlyniad i gyfnod o absenoldeb estynedig roedd hyn. Er ein bod yn cydnabod bod COVID-19 wedi cyfyngu ar sicrhau bod hyfforddiant wyneb yn wyneb ar gael, dylai'r bwrdd iechyd ystyried pob opsiwn er mwyn mynd i'r afael â'r risgiau o beidio â sicrhau bod y staff yn cael hyfforddiant gorfodol cyfredol. Gallai hyn gynnwys opsiynau wyneb yn wyneb neu ar-lein eraill, gan sicrhau y caiff ei ddosbarthu'n briodol o fewn y tîm deintyddol a'i gofnodi.

Cyn cyhoeddi'r adroddiad, cafodd AGIC ddigon o sicrwydd bod y practis wedi cymryd camau i ymgyswrtu â'r safonau a amlinellwyd yn nogfen ganllaw Llywodraeth Cymru ac i gydymffurfio â nhw.

Rheoli meddyginiaethau

Gwelsom fod cyffuriau brys a chyfarpar dadebru brys ar gael yn y practis a oedd yn cyrraedd safonau'r Cyngor Dadebru (DU)⁶, ac eithrio pigiad Glucagon a oedd wedi dod i ben yn ddiweddar. Gwelsom hefyd fod meddyginiaethau eraill nad ydynt yn rhai brys yn cael eu storio ochr yn ochr â chyffuriau brys, a bod rhywfaint o'r rhain wedi dod i ben yn ddiweddar hefyd.

Cadarnhaodd y practis ei fod wedi bod yn archwilio'r cyffuriau a'r cyfarpar brys yn rheolaidd bob wythnos. Fodd bynnag, rhaid i'r practis sicrhau bod yr archwiliadau hyn yn ddigonol i sicrhau ei fod yn archebu meddyginiaeth newydd yn lle unrhyw feddyginiaeth sydd â dyddiad byr neu unrhyw feddyginiaeth y mae ei dyddiad wedi dod i ben.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r practis sicrhau bod archwiliadau wythnosol digonol yn cael eu cyflawni i wneud yn siŵr ei fod yn archebu meddyginiaeth newydd yn lle unrhyw feddyginiaeth y mae ei dyddiad wedi dod i ben.

⁶ <https://www.resus.org.uk/quality-standards/primary-care-equipment-and-drug-lists/>

4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau ac achosion uniongyrchol o ddiffyg cydymffurfio yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rhoddwyd hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn gofyn i'r gwasanaeth ddweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Os byddwn yn nodi unrhyw achosion difrifol o dorri rheoliadau a phryderon o ran diogelwch a llesiant y cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, hysbysir darparwr cofrestredig y gwasanaeth drwy hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio. Mae cyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn fater difrifol ac yn gam cyntaf mewn proses a all arwain at ddwyn achos sifil neu droseddol.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach

- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol

Fel arfer, rhoddir rhybudd ar gyfer arolygiadau o bractisau deintyddol. Bydd practisau deintyddol yn cael hyd at 12 wythnos o rybudd am arolygiad. Mae hyn er mwyn iddynt allu gwneud trefniadau i sicrhau bod y practis yn rhedeg fel arfer, a bod yr arolygiad yn tarfu cyn lleied â phosibl ar y cleifion.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr y practis ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol ac ar lefel strategol.

Rydym yn edrych ar y ffordd y mae practisau deintyddol yn cyrraedd [Safonau Iechyd a Gofal 2015](#) a, lle y darperir deintyddiaeth breifat, i ba raddau roeddent yn bodloni Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017. Lle bo hynny'n briodol, rydym yn ystyried y ffordd y mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â'r [Rheoliadau Ymbelydriadau Ïoneiddio 2017](#), ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill megis [Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol](#).

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn practisau deintyddol.

Ceir manylion pellach am y ffordd y mae AGIC yn arolygu [practisau deintyddol](#) a'r [GIG](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion	Sut y cafodd y pryder ei uwchgyfeirio gan AGIC	Sut y cafodd y pryder ei ddatrys
Gwelsom fod pigiad Glucagon wedi'i leoli yn y pecyn cyffuriau brys wedi dod i ben yn ddiweddar.	Gallai hyn effeithio ar effeithlonrwydd y cyffur mewn argyfwng ac, o ganlynid, yn effeithio ar ddiogelwch cleifion.	Gwnaethom godi hyn â rheolwr y practis ar ddiwrnod yr arolygiad.	Cadarnhaodd y practis fod y pigiad Glucagon newydd wedi cael ei archebu ac y gellir cael pigiad arall o chwaer-bractis.

Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol

Gwasanaeth: Practis Deintyddol Arberth

Dyddiad arolygu: 11 Tachwedd 2020

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch y cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella uniongyrchol sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

Disgrifiad o'r diffyg cydymffurfio/ Camau i'w cymryd	Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Mae'n ofynnol i'r practis gyflwyno'r wybodaeth ganlynol: - Dogfennaeth sy'n cadarnhau'r flwyddyn y dechreuodd pob nyrs ddeintyddol gyflawni nyrsio <u>deintyddol</u> tawelyddu - Cofnodlyfrau ar gyfer pob nyrs ddeintyddol tawelyddu - Unrhyw dystysgrifau hyfforddi a thystysgrifau DPP ar gyfer pob nyrs ddeintyddol tawelyddu, gan gynnwys blynyddoedd eu cylch DPP presennol - Manylion, gan gynnwys y dystysgrifau	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 Rheoliadau 13(1), 13(2), 13(4) ac 13(8)	Mae'r ddogfennaeth wedi cael ei chyflwyno. Mae hyfforddiant ychwanegol bellach yn cael ei ystyried i sicrhau bod aelodau ychwanegol o'r staff yn bodloni'r safon ddigonol ar gyfer tawelyddu.	Liam Boulcott Rheolwr y Practis	Cwblhawyd Parhaus

Disgrifiad o'r diffyg cydymffurfio/ Camau i'w cymryd	Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
hyfforddi, ynghylch pryd y cyflawnwyd hyfforddiant Cynnal Bywyd Brys ddiwethaf gan bob nyrs ddeintyddol tawelyddu.				
Mae angen i gyfrifiadau ar gyfer pob deintyddfa, yn seiliedig ar ddefnydd y purwr yn unig, gael eu cyflwyno er mwyn dangos adegau glanhau penodol ar gyfer pob deintyddfa. Yna, mae'n ofynnol i'r practis newid ei adegau glanhau i adlewyrchu'r cyfrifiadau hyn nes bod arbenigwr cymwys yn gallu cadarnhau'r dulliau eraill.	Rheoliadau 13(5), 13(6) ac 13(8)	Cyflwynwyd y cyfrifiadau a rhoddwyd unedau puro aer ychwanegol yn y deintyddfeydd. Mae mesurau sugno Cyfaint Uchel a mesurau lliniaru ychwanegol hefyd yn cael eu defnyddio.	Liam Boulcott Rheolwr y Practis	Cwblhawyd

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth: Dr M Boulcott

Enw (priflythrennau): Mark Boulcott

Teitl swydd: Prif Ddeintydd

Dyddiad: 25.11.20

Atodiad C – Cynllun gwella

Gwasanaeth: Practis Deintyddol Arberth

Dyddiad arolygu: 11 Tachwedd 2020

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn ei gwneud yn ofynnol i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Darparu gofal diogel ac effeithiol				
Rhaid i'r practis sicrhau bod y gwiriadau diogelwch digonol yn cael eu cynnal er mwyn sicrhau bod meddyginiaeth newydd ar gael yn lle meddyginiaeth sydd wedi dod i ben	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 Rheoliad 13	Eisoes ar waith fel y nodwyd ond bydd yn ffurfioli bob wythnos. Y broblem yw anhawster wrth gaffael a phroblemau staffio yng nghanol Pandemig COVID-19.	Dr Mark Boulcott	Yn syth

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Dr Mark Boulcott

Teitl swydd:

Dyddiad:

Prif ddeintydd

10/01/21